

Astudiaeth achos – Gwreiddio – Y Ffordd Gywir – Mabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant gan Gyngor Wrecsam

Yn dilyn gwaith gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam, cytunodd cyngor Wrecsam i beilota Y Ffordd Gywir. Cefnogwyd y gwaith hwn gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant, a datblygwyd peilot mewn 4 o adrannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; Gofal Cymdeithasol i Blant, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Tai a'r Economi ac Addysg.

Bu tîm y prosiect a'r staff yn Wrecsam yn gweithio'n galed i gwblhau'r hunanasesiad gyda'r rhan fwyaf o reolwyr y timau Gofal Cymdeithasol i Blant a Gofal Cymdeithasol i Oedolion, yn ogystal â'r Tîm Rheoli Adrannol ymhlith gwasanaethau eraill; cynhaliwyd gweithdai gydag uwch-reolwyr a sefydlwyd bwriad i wreiddio Hawliau Plant mewn cynllunio strategol ac wrth ddatblygu a threialu Offeryn newydd i Asesu Effaith ar Hawliau Plant. Mae'r peilot wedi cynyddu ymwybyddiaeth o Hawliau Plant a'r angen am fabwysiadu a gweithredu Y Ffordd Gywir, ac mae parodwydd gwirioneddol i ymgysylltu â'r agenda hon yn Wrecsam, gyda chefnogaeth lefel uchel.

Effeithiodd nifer o heriau allanol, gan gynnwys archwiliadau mewnol, newidiadau arweinyddiaeth a'r pandemig byd-eang ar nodau'r peilot. Er gwaethaf hynny, mae'r BGC wedi rhoi blaenoriaeth i gynnal ffocws ar blant a phobl ifanc, anghydraddoldeb a'r amgylchedd fel elfen hanfodol o adferiad Wrecsam wedi Covid, felly mae cyfle ac ymrwymiad o ran y partneriaid i wneud pethau mewn ffordd wirioneddol wahanol.

Gallai rhyddhau o gyfnod clo Covid 19 greu cyfleoedd anhysbys i ganolbwyntio ar Hawliau Plant yng Nghyngor Wrecsam, a gallai ffocws cynyddol ar ddysgu parhaus arwain at ddatblygu set dysgu gweithredol CCUHP i ddatblygu camau hwylus, cyflym a fydd yn symud fesul tipyn i'r cyfeiriad cywir yn rheolaidd.

Trwy gynnwys arweinwyr uwch a darbwylo'u calonnau a'u meddyliau, roedd modd cael ymrwymiad i wreiddio dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant.